# Papur y Bwrdd

Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Blaenoriaethau ar gyfer cyflawni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:** Problemau'n ymwneud â llygredd amaethyddol – a'r goblygiadau o safbwynt rheoli adnoddau naturiol |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B B 46.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ceri Davies |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Ruth Jenkins/Robert Vaughan |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** Tynnu sylw at faint ac effaith problemau presennol sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol, ynghyd â'r atebion integredig a gaiff eu datblygu'n awr ar draws Llywodraeth Cymru ac o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r canlynol:<br>• Graddau digwyddiadau llygredd amaethyddol sy'n digwydd ar hyn o bryd, a'r effaith anghymesur y maent yn ei chael ar yr amgylchedd dŵr, a chymeradwyo:<br>• Y modd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i'r afael ar hyn o bryd â llygredd amaethyddol o ffynhonnell benodol a llygredd amaethyddol gwasgaredig – a graddau'r cydweithio a wneir yn awr gan adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru ac o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Yr angen i ymgysylltu ymhellach â'r sector amaethyddol er mwyn hybu gwelliannau ym maes rheoli adnoddau naturiol. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | *Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:*<br><br>**Ystyried yr <u>hirdymor</u>:**<br>Bydd lleihau effeithiau llygredd amaethyddol yn arwain at amryw |

| | |
|---|---|
| | fanteision i'r gymdeithas, trwy leihau costau trin dŵr, diogelu stociau pysgod yn ogystal ag agweddau eraill ar fioamrywiaeth, a galluogi'r sector hamdden a'r sector twristiaeth i wneud cyfraniad o bwys i economi Cymru.<br><br>**Gweithredu mewn modd <u>integredig</u>:**<br>Mae'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yn cynnwys datblygu pecyn integredig o fesurau sy'n seiliedig ar gyfuniad o waith rheoleiddio, cynghori a chymell. Mae'r broses o gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau llygredd (yn enwedig drwy System Cofnodi Digwyddiadau Cymru (WIRS)) yn cyfrannu at ystod eang o weithgareddau sy'n dylanwadu ar bolisi, gan gynnwys ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru a dogfennau megis yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol.<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br>Gallai darparu gwybodaeth, hyfforddiant a dulliau o drosglwyddo gwybodaeth yn y sector amaethyddol, a galluogi rhwydweithio ar draws sectorau trwy ymchwil a datblygu, leihau costau Cyfoeth Naturiol Cymru a chostau'r sector amaethyddol yn y tymor hwy a sicrhau budd i gymunedau lleol, y sector hamdden a'r sector twristiaeth.<br><br>**Gweithio mewn modd <u>cydweithredol</u>:**<br>Mae Is-adran Ddŵr Llywodraeth Cymru, yr Adran Materion Gwledig ac Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, colegau amaethyddol a diwydiannau preifat yn cydweithio i ddatblygu dulliau o fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio'n agos â holl rannau perthnasol Llywodraeth Cymru, ac mae wedi sefydlu gweithgor ar lefel swyddogion i sicrhau bod arbenigedd yn cael ei rannu'n rheolaidd rhwng y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio a staff gweithredol. Bydd dulliau o gydweithio'n agosach â'r sector amaethyddol yn cael eu hybu trwy grwpiau ymgysylltu a arweinir gan Lywodraeth Cymru.<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag digwydd:**<br>Mae llawer o'r 'tasgau o ddydd i ddydd' y mae timau rheoli adnoddau naturiol yn ymgymryd â nhw'n cyfrannu at gamau atal, e.e. y gwaith o ddarparu cyngor i ffermwyr unigol ochr yn ochr â'r rhan y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei chwarae yn y rhaglen Cyswllt Ffermio.<br>Mae cymryd rhan yn Cyswllt Ffermio yn golygu cydweithio ag eraill o'r tu allan i Cyfoeth Naturiol Cymru i annog rheolwyr tir i gymryd camau atal a chyflwyno mesurau cadarnhaol. |

**<u>Mater</u>**

1. Fel y nodwyd yn y papur blaenorol ynghylch y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (NRW B.29.16), llygredd amaethyddol yw'r rheswm pennaf ond dau dros fethu â chyflawni statws da yng Nghymru. Mae'n effeithio ar oddeutu 180 o gyrff dŵr

unigol. Mae nifer y digwyddiadau llygredd a achoswyd gan ffermydd godro a ffermydd bîff ledled Cymru wedi amrywio o 85 i 120 yng nghyswllt pob un o'r chwe blynedd diwethaf (gweler Atodiad 1). Mae'r gaeafau gwlyb a gafwyd yn ddiweddar ynghyd â dirywiad mawr yn y farchnad laeth wedi ychwanegu at y pwysau sydd ar yr amgylchedd a'r pwysau sydd ar adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar adnoddau ffermwyr, gan leihau eu capasiti i fuddsoddi mewn dulliau o reoli storfeydd slyri a silwair.

2. Mae digwyddiadau llygredd o ffynhonnell benodol (megis y rhai a achosir gan storfeydd slyri sy'n gorlifo) yn digwydd mewn rhannau penodol o Gymru. Roedd dros 60% o ddigwyddiadau'r tair blynedd diwethaf yn ardal odro Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Bu'n rhaid i dimau rheoli adnoddau naturiol lleol gyfrannu'n sylweddol i'r gwaith o ymdrin â'r digwyddiadau hyn (gweler Atodiad 2).

3. Mae llygredd dŵr gwasgaredig yn digwydd pan fydd dŵr glaw a/neu eira tawdd yn symud dros bridd a thrwy bridd. Mae'r dŵr glaw hwnnw'n casglu llygryddion ac yna'n eu dyddodi mewn llynnoedd, afonydd, gwlyptiroedd, dyfroedd arfordirol a dŵr daear. O safbwynt amaethyddiaeth, mae'r prif lygryddion yn cynnwys:
   - Gwrteithiau a phlaladdwyr nad yw'r pridd wedi'u hamsugno
   - Gwaddod sy'n deillio o drin y tir ac o symudiadau cerbydau ac anifeiliaid
   - Bacteria a maetholion a gaiff eu dyddodi gan dda byw.

4. Mae'r ffaith bod amryw ffactorau cyfrannol ac amryw ffynonellau'n gysylltiedig â llygredd gwasgaredig yn golygu ei bod yn arbennig o anodd ymdrin ag ef. Yn rhan o'r broses o weithio gyda Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r gwaith o lofnodi contractau Glastir Uwch, paratôdd Cyfoeth Naturiol Cymru dros 100 o Gynlluniau Rheoli Maetholion Fferm yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Hydref 2014. Dangosodd gwaith samplu pridd fod dros 75% o gaeau'n rhy asidig i alluogi planhigion i dyfu gystal ag y gallent, gan gynyddu'r perygl y byddai cyrsiau dŵr yn cael eu cyfoethogi gan faetholion. Yn ogystal, roedd lefelau ffosffad dros draean o'r caeau a oedd wedi'u gwella'n amaethyddol yn uwch na'r lefel ddelfrydol, a oedd yn berygl o bwys i'r amgylchedd dŵr.

5. Yn ogystal, nododd asesiadau Cyfoeth Naturiol Cymru o gaeau fod bron i ddeg o broblemau rheoli'n bodoli ar gyfer pob fferm a archwiliwyd a allai berthyn i Glastir. Roedd problemau a oedd yn effeithio ar gyrsiau dŵr (e.e. mannau croesi da byw, glannau sy'n erydu, a chyfoethogi gan faetholion) yn cyfrif am 25% o'r problemau, ac roedd traciau cerbydau ac achosion o bridd yn cael ei sathru gan dda byw'n cyfrif am 48% o broblemau eraill.

6. Mae llygredd amaethyddol parhaus sy'n deillio o ffynonellau penodol a ffynonellau gwasgaredig yn cael effaith andwyol ddifrifol ar amgylchedd Cymru, ac mae'n effeithio ar ein gallu i gyrraedd targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr dan y Rhaglen Rheoli Basnau Afonydd. Caiff y sefyllfa hon ei hadlewyrchu yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ac yn nhystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr achos dros ymestyn yn sylweddol yr ardal y mae Parthau Perygl Nitradau yn gysylltiedig â hi ar hyn o bryd. Mae ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater hwn yn debygol o gael ei gynnal yn fuan.

**Cefndir**

7. Erbyn hyn, mae gwartheg bîff a gwartheg godro i'w gweld yn bennaf mewn tir caeëdig ar yr iseldir (gweler Atodiad 4). Mae'r dosbarthiad hwn yn cyd-fynd â

dosbarthiad digwyddiadau llygredd o ffynhonnell benodol, y gwyddys amdanynt (gweler Atodiad 5).

8. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, cafwyd 248 o ddigwyddiadau llygredd amaethyddol o ffynhonnell benodol yng Nghymru, sef 1.6 yr wythnos ar gyfartaledd (gweler Atodiad 2). Mae cyfran eithaf bach o'r rhain yn arwain at achosion o erlyn (5.6%) ond yn aml mae'r ffermwyr dan sylw'n cymryd rhybuddion (42.7%) a rhybuddiadau (5.6%) ffurfiol Cyfoeth Naturiol Cymru o ddifrif. Ochr yn ochr â'r broses o adennill costau Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r broses o roi hysbysiadau, rhybuddion a rhybuddiadau Rheoliad 7 y Rheoliadau Slyri, Silwair ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO) yn aml yn sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell nag achos o erlyn a rhoi dirwy.

9. Ni fydd cyflwyno rheoliadau newydd ynghylch llygredd amaethyddol yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth oni bai bod gofynion presennol yn cael eu gorfodi'n ystyrlon. Yn aml, mae'r llysoedd yn rhoi dirwyon o ychydig filoedd o bunnoedd yn unig. Mae hynny'n creu hinsawdd barn lle gallai fod yn well i ffermwr fentro cael ei erlyn yn hytrach na buddsoddi symiau mawr o arian (tua £90,000) mewn storfeydd newydd ar gyfer slyri. Mae'r dirywiad diweddar mewn marchnadoedd amaethyddol wedi dwysáu agweddau o'r fath.

**<u>Asesiad</u>**

10. Dyma'r materion allweddol sy'n ymwneud â rheoli maetholion yn y sector da byw amaethyddol:
    - Darparu storfeydd slyri sy'n addas i'w diben o safbwynt capasiti, cywirdeb strwythurol a senarios a allai godi yn y dyfodol o ran busnes a'r newid yn yr hinsawdd
    - Rheoli maetholion yn gywir, gan gynnwys y modd y caiff slyri, tail, gwrtaith a gwastraff eu defnyddio er budd amaethyddol
    - Trin pridd yn dda, a fyddai'n arwain at leihau gwaddod a llygredd gwasgaredig.

11. Mae staff Cyfoeth Naturiol Cymru, ym mhob rhan o'r sefydliad, wedi bod yn ymwneud ag asesu potensial ystod o atebion posibl i broblemau'n ymwneud â llygredd gwasgaredig a llygredd o ffynhonnell benodol, sy'n deillio o bob sector amaethyddol. Byddai'r atebion hynny'n golygu newidiadau i ystod eang o systemau rheoleiddio, cynghori a chymell, gan gynnwys Parthau Perygl Nitradau, sancsiynau sifil, rheolau sylfaenol sy'n berthnasol i bob ffermwr, y Rheoliadau Slyri, Silwair ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO), y gyfundrefn drawsgydymffurfio, cydnabyddiaeth a enillir, y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol, cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig, Cyswllt Ffermio a'r gwaith o ddatblygu atebion newydd trwy ymchwil a datblygu (mae rhestr lawn i'w gweld yn Atodiad 5).

12. Gallai datblygu'r cysyniad o gydnabyddiaeth a enillir leihau'n sylweddol yr angen am gyngor ac ymweliadau rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dan y dull hwn, mae ffermydd sy'n bodloni gofynion Sicrhau Ansawdd (fel y cânt eu harolygu dan Gynlluniau Gwarant Fferm a ariennir gan y diwydiant) yn cael llai o ymweliadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Yna, gellir cyfeirio adnoddau o ran staff at weithredwyr sydd â safonau is. Ar hyn o bryd, dim ond yn y sector moch a'r sector dofednod y mae'r cysyniad o gydnabyddiaeth a enillir yn cael ei weithredu.

13. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu nifer o raglenni a ariennir ar y cyd, er mwyn helpu cwmnïau (busnesau bach a chanolig) i ddatblygu cynnyrch a/neu wasanaethau arloesol. Er enghraifft, mae prototeip o wahanwr slyri at ddefnydd masnachol ar fferm gyffredin yng Nghymru wedi'i osod yng Ngholeg Sir Gâr er mwyn treialu'r broses o dynnu dŵr allan o slyri, gan ddefnyddio'r elfen sych fel gwrtaith. Nod y mentrau hyn yw creu cynnyrch a/neu wasanaethau newydd, a throi problemau presennol yn asedau economaidd. Maent yn manteisio ar sectorau a thechnegau nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymwneud â nhw o'r blaen efallai – a lle nad yw'r atebion a gynigir yn cael eu cyfyngu gan ein rhagdybiaethau ni.

**<u>Camau nesaf</u>**

14. Yn dilyn cyflwyniad i'r Gweinidogion Cyfoeth Naturiol ac Amaethyddiaeth ar 9 Chwefror 2016, mae staff Cyfoeth Naturiol Cymru o'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio a'r Cyfarwyddiaethau Gweithrediadau wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru o'r Is-adran Ddŵr a'r Adran Materion Gwledig. Mae angen gwneud rhagor o waith ar y cyd i ddatblygu'r rhestr o atebion a gynigir (gweler Atodiad 5) cyn y gellir rhannu'r atebion â chynrychiolwyr y sector amaethyddol gyda'r bwriad o greu Cynllun Gweithredu cynhwysfawr ar gyfer Llygredd Amaethyddol a Rheoli Maetholion.

15. Mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru yn cydnabod bod llygredd gwasgaredig yn gallu bod yn anodd ei adnabod a'i reoli, ac mae'n rhwymo Llywodraeth Cymru i adolygu a newid arferion a dulliau rheoleiddio presennol lle bo hynny'n briodol, erbyn 2018. O ran yr ymrwymiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn sefydlu Grŵp Rhaglen Llygredd Gwasgaredig a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â'r amryw randdeiliaid amaethyddol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio ymestyn cylch gwaith y Grŵp er mwyn iddo allu ymdrin â llygredd o ffynhonnell benodol yn ogystal â llygredd gwasgaredig.

16. Yn flaenorol, bu Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r cyfleoedd a gâi eu darparu gan Fforwm Rheoli Tir Cymru i rannu gwybodaeth â'r Undebau Amaethwyr am raddau ac effaith digwyddiadau llygredd amaethyddol diweddar. Ochr yn ochr â'r Grŵp Rhaglen Llygredd Gwasgaredig, gallai'r ffaith bod y Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth wedi'i sefydlu gan y Gweinidog Amaeth blaenorol ddarparu rhagor o gyfleoedd i gynnwys y sector amaethyddol yn y gwaith o ddatblygu atebion sy'n fanteisiol i bawb. Gallai'r rhain gynnwys:
    - Dulliau rheoleiddio newydd, e.e. datblygu'r cysyniad o gydnabyddiaeth a enillir
    - Dulliau newydd o reoli gwastraff ar lefel y fferm unigol/ffermydd cyfagos, e.e. ceisio troi slyri'n sgil-gynnyrch defnyddiol, gan gynnwys ei droi'n ynni.

17. Dylai dulliau o'r fath gael eu defnyddio i ategu dulliau mwy traddodiadol o reoleiddio, cynghori a chymell, fel y dangosir gan y gwaith parhaus y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud i ymchwilio i ddigwyddiadau llygredd; adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru dan y gyfundrefn drawsgydymffurfio; cymryd rhan yn nigwyddiadau Cyswllt Ffermio; cynorthwyo i baratoi cynlluniau rheoli Glastir; a chynghori ynghylch targedu Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy.

18. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn trafod â Llywodraeth Cymru y ffordd orau o ddatblygu pob un o'r amryw linynnau gwaith hyn – a'r graddau y gellir eu cyfuno â'i gilydd. Yn y cyd-destun hwn, bydd y Bwrdd am nodi bod y Gweinidog wedi gwneud datganiad yng nghyfarfod llawn y Cynulliad Cenedlaethol (yn ystod yr wythnos yn cychwyn 21 Mehefin) ynghylch effaith digwyddiad llygredd diweddar yn Llanddowror yn ne-orllewin Cymru, a oedd yn ymwneud â slyri. Yn ôl asesiad cychwynnol y tîm rheoli adnoddau naturiol lleol, roedd oddeutu 80 o salmonidau, 150 o bennau lletwad, llysywod a llysywod pendoll wedi'u lladd.

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi a chymeradwyo'r canlynol:

19. Graddau digwyddiadau llygredd amaethyddol sy'n digwydd ar hyn o bryd, a'r effaith anghymesur y maent yn ei chael ar yr amgylchedd dŵr ac ar waith rhai o dimau gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru.

20. Y modd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i'r afael ar hyn o bryd â llygredd amaethyddol o ffynhonnell benodol a llygredd amaethyddol gwasgaredig, a'r graddau y mae cydweithio'n digwydd ag adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru ac o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun.

21. Yr angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgysylltu'n agosach â'r sector amaethyddol gan ddefnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Y farn ar hyn o bryd yw y dylai hynny olygu lleihau'r adnoddau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu dyrannu i'r gwaith o ymchwilio i ddigwyddiadau llygredd llai difrifol a gorfodi camau'n ymwneud â nhw, a bod yr arbedion yn cael eu dyrannu i ymchwil a datblygu ac i'r gwaith o gynghori a hyfforddi ffermwyr (gan weithio dan nawdd rhaglen Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru).

**Prif risgiau**

22. Llygredd gwasgaredig a llygredd o ffynhonnell benodol, o'u cyfuno â'i gilydd, yw'r rheswm pennaf ond dau dros fethu â bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru.

23. Dylai codi'r trothwyau a ddefnyddir i sbarduno ymchwiliadau a chamau gorfodi (yn unol â chanlyniadau'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth reoleiddiol) leihau'r galwadau sydd ar dimau rheoli adnoddau naturiol lleol. Gellir defnyddio'r amser a'r adnoddau a arbedir i gynghori grwpiau o ffermwyr (yn hytrach nag ymdrin ag achosion unigol o lygredd) a datblygu dulliau newydd o reoleiddio a rheoli gwastraff.

24. Bydd gostyngiadau parhaus mewn prisiau marchnadoedd a lefelau is o broffidioldeb yn lleihau ymhellach y capasiti sydd gan ffermwyr i osod cyfleusterau newydd ar gyfer rheoli slyri ac i gymryd camau gweithredu llai megis mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae da byw'n sathru glannau cyrsiau dŵr.

25. Mae ffocws presennol yr Undebau Amaethwyr ar fynd i'r afael â phrisiau isel marchnadoedd yn ei gwneud yn fwy anodd ymgysylltu â'r sector amaethyddol o safbwynt datblygu dulliau manteisiol i bawb o ymdrin â llygredd o ffynhonnell benodol a llygredd gwasgaredig.

26. Bydd methu â datrys problemau'n ymwneud â llygredd amaethyddol trwy gyfuniad o waith rheoleiddio, cynghori a chymell gwell yn arwain at alwadau am ddulliau gorfodi mwy llym. Byddai hynny'n golygu costau ychwanegol i ffermwyr – a allai gyfrannu at gynnydd pellach yn nifer y digwyddiadau llygredd.

**Goblygiadau ariannol**

27. Mae ymdrin â digwyddiadau llygredd o ffynhonnell benodol yn gofyn am lawer o fewnbwn gan dimau rheoli adnoddau naturiol lleol, ac mae hynny'n effeithio ar gostau staff a/neu waith arall.
28. Mae datblygu atebion posibl i broblemau llygredd amaethyddol yn mynd â rhagor o amser y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio, sy'n effeithio ar gostau staff a/neu waith arall.
29. Mae'n bosibl y byddai'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru dalu cost rhai o'r atebion a gynigir (e.e. cost darparu rhagor o gyngor i ffermwyr) hyd yn oed os caiff y cyngor ei ddarparu dan faner Cyswllt Ffermio.
30. Gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cymhellion ychwanegol i fynd i'r afael â llygredd (trwy Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy a/neu Glastir). Byddai hynny'n lleihau'r cyllid a fyddai ar gael gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru ar gyfer mesurau eraill megis diogelu safleoedd statudol dan Glastir Uwch, adfer coetiroedd a datblygu cymunedau gwledig.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

Nid oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gyflawni yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ymateb i broblemau sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol. Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar gydraddoldeb.

**Mynegai i'r Atodiadau**

Atodiad 1 – Digwyddiadau llygredd amaethyddol yng Nghymru sy'n effeithio ar ddŵr.
Atodiad 2 – Ymateb gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddigwyddiadau llygredd sy'n ymwneud â slyri yng Nghymru.
Atodiad 3 – Dosbarthiad gwartheg bîff a gwartheg godro ledled Cymru.
Atodiad 4 – Lleoliad digwyddiadau llygredd amaethyddol yng Nghymru sy'n effeithio ar ddŵr.
Atodiad 5 – Cynllun gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Llygredd Amaethyddol a Rheoli Maetholion.